# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 2

DIGARTREFEDD

## PENNOD 2

CYMORTH I BOBL SY'N DDIGARTREF NEU O DAN FYGYTHIAD O DDIGARTREFEDD

*Termau allweddol*

### 58 Ystyr camdriniaeth a camdriniaeth ddomestig

(1) Ystyr "camdriniaeth" yw trais corfforol, ymddygiad bygythiol neu fygylus ac unrhyw ffurf arall ar gamdriniaeth a all, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, arwain at y perygl o niwed; ac ystyr "camdriniaeth ddomestig" yw camdriniaeth sy'n dod o du person sy'n gysylltiedig â'r dioddefwr.

(2) Mae person yn gysylltiedig â pherson arall os ydynt—

(a) yn briod â'i gilydd neu wedi bod yn briod â'i gilydd;

(b) yn bartneriaid sifil i'w gilydd neu wedi bod yn bartneriaid sifil i'w gilydd;

(c) yn byw â'i gilydd neu wedi bod yn byw â'i gilydd mewn perthynas deuluol barhaus (pa un ai os ydynt o rywiau gwahanol neu o'r un rhyw);

(d) yn byw neu wedi byw ar yr un aelwyd;

(e) yn berthnasau;

(f) wedi cytuno i briodi ei gilydd (pa un a yw'r cytundeb hwnnw wedi ei derfynu ai peidio);

(g) wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil rhyngddynt (pa un a yw'r cytundeb hwnnw wedi ei derfynu ai peidio);

(h) mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd, neu wedi bod mewn perthynas o'r fath, sydd, neu a oedd, wedi parhau am gyfnod sylweddol;

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/04/2015.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 58. (See end of Document for details)*

(i) mewn perthynas â phlentyn, y naill a'r llall yn rhiant i'r plentyn neu â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, neu wedi bod â chyfrifoldeb o'r fath.

(3) Os yw plentyn wedi ei fabwysiadu neu yn dod o fewn is-adran (4), mae dau berson hefyd yn gysylltiedig â'i gilydd at ddibenion y Bennod hon—

(a) os yw un yn rhiant naturiol i'r plentyn neu'n rhiant i riant naturiol o'r fath, a

(b) y person arall yw—

(i) y plentyn, neu

(ii) person sydd wedi dod yn rhiant i'r plentyn yn rhinwedd gorchymyn mabwysiadu, sydd wedi gwneud cais am orchymyn mabwysiadu neu y mae'r plentyn wedi ei leoli gydag ef ar gyfer ei fabwysiadu ar unrhyw adeg.

(4) Mae plentyn yn dod o fewn yr adran hon—

(a) os yw asiantaeth fabwysiadu, o fewn ystyr adran 2 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, wedi ei hawdurdodi i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu o dan adran 19 o'r Ddeddf honno (gosod plentyn â chydsyniad rhiant) neu mae'r plentyn wedi dod yn destun gorchymyn o dan adran 21 o'r Ddeddf honno (gorchmynion lleoli), neu

(b) os yw'r plentyn yn cael ei ryddhau ar gyfer ei fabwysiadu yn rhinwedd gorchymyn a wneir—

(i) yng Nghymru a Lloegr, o dan adran 18 o Ddeddf Mabwysiadu 1976,

(ii) yng Ngogledd Iwerddon, o dan Erthygl 17(1) neu 18(1) o Orchymyn Mabwysiadu (Gogledd Iwerddon) 1987, neu

(c) os yw'r plentyn yn destun gorchymyn parhauster yn yr Alban sy'n cynnwys rhoi'r awdurdod i fabwysiadu.

(5) Yn yr adran hon—

mae i "cyfrifoldeb rhiant" yr ystyr a roddir i "parental responsibility" gan adran 3 o Ddeddf Plant 1989;

mae i "cytundeb partneriaeth sifil" yr ystyr a roddir i "civil partnership agreement" gan adran 73 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004;

ystyr "gorchymyn mabwysiadu" yw gorchymyn mabwysiadu o fewn yr ystyr a roddir i "adoption order" gan adran 72(1) o Ddeddf Mabwysiadu 1976 neu adran 46(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

ystyr "perthynas" ("*relative*"), mewn perthynas â pherson, yw rhiant, taid (tad-cu), nain (mam-gu), plentyn, ŵyr neu wyres, brawd, hanner brawd, chwaer, hanner chwaer, ewythr, modryb, nai neu nith y person (gan gynnwys unrhyw berson sydd yn y berthynas honno neu sydd wedi bod yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 58 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 58 mewn grym ar 27.4.2015 gan O.S. 2015/1272, ergl. 2, **Atod. para. 9**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/04/2015.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 58.